# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bramble Cottage**

**Hengoed**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Bramble Cottage

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Values in Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Ebrill 2024 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth rhagorol gan y gwasanaeth. Mae'r bobl yn hapus ac yn byw bywydau llawn, gan ddewis sut yr hoffent dreulio eu hamser. Mae'r cynlluniau personol wedi cael eu hysgrifennu'n dda, ac maent yn cael eu datblygu a'u hadolygu gan y bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol allanol sy'n ymwneud â'u gofal.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod yn iach, yn egnïol ac i ryngweithio â'u cymuned leol. Mae'r gwasanaeth yn rhoi pwyslais arbennig ar feithrin sgiliau'r bobl a dathlu eu cyflawniadau.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn cynnig digon o le i'r bobl dreulio amser gyda'i gilydd neu'n cwblhau ac yn mwynhau gweithgareddau.

Mae rheolwr a thîm rheoli ac arwain ehangach y cartref yn ymrwymedig i ddarparu rheolaeth a chymorth o ansawdd uchel iawn i'r gwasanaeth. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael cyfle i ddatblygu. Mae pwyslais clir ar lesiant y bobl ac mae ansawdd bywyd wrth wraidd y strwythur rheoli.

## Llesiant

Mae llesiant y bobl yn rhagorol o ganlyniad i'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Gwelsom fod gan y bobl reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal yr arferion personol a nodir yn eu hamserlenni gweithgareddau. Gwelsom fod y bobl yn cael cymorth rheolaidd i gyfrannu at y broses o adolygu eu gweithgareddau. Mae'r bobl yn hapus a chânt eu cefnogi'n dda i fyw eu bywydau fel y mynnant. Mae'r wybodaeth gywir ar gael i'r bobl mewn fformatau hawdd eu deall, ac mae'r gweithwyr cymorth wedi cael hyfforddiant i helpu'r bobl i gyfathrebu drwy ddefnyddio strategaethau cyfathrebu amrywiol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i sicrhau bod adnoddau gweledol Cymraeg ar gael.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom y bobl a'r gweithwyr cymorth yn mwynhau treulio amser gyda'i gilydd yn cwblhau gweithgareddau byw o ddydd i ddydd. Mae'r bobl yn hapus ac yn cael cymorth i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl yn cael eu gwiriadau iechyd blynyddol gyda'u meddyg teulu. Mae gan y bobl weithiwr allweddol dynodedig sy'n sicrhau y caiff pob ymweliad iechyd a'r holl wybodaeth eu cofnodi a'u bod yn gyfredol. Mae prosesau monitro cadarn ar waith yn y gwasanaeth er mwyn galluogi'r rheolwr i oruchwylio iechyd a llesiant y bobl yn effeithiol. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y bobl yn cael eu cefnogi i gwblhau gweithgareddau byw'n iach, fel mynd am dro a helpu i baratoi prydau bwyd cytbwys. Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae polisi a gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith yn y gwasanaeth i sicrhau bod y bobl yn cael eu hamddiffyn. Mae gan y gweithwyr cymorth ddealltwriaeth glir o'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael budd o ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol a gaiff eu cynnal gan ddarparwr y gwasanaeth yn yr Hwb. Yn ystod yr arolygiad, cymerodd y bobl ran mewn sesiynau i gefnogi eu sgiliau byw o ddydd i ddydd er mwyn gwella'r hyn y maent yn ei ddysgu yn y cartref. Mae'r staff cymorth yn fedrus wrth roi Cymorth Gweithredol ar waith, sef model gofal a chymorth sydd wedi'i ddylunio i wella ansawdd bywyd pobl drwy gymryd mwy o ran mewn gweithgareddau ystyrlon. Caiff y bobl eu cefnogi i gyfrannu at gymdeithas. Gwelsom luniau a llyfrau cyflawniadau yn cael eu datblygu i ddathlu pan fydd y bobl yn gwneud rhywbeth caredig i'w cymunedau lleol. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant yn y ffordd orau. Caiff y cartref ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'r tîm rheoli yn ystyried addasiadau posibl er mwyn gwella ansawdd bywyd y bobl yn yr amgylchedd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael budd o'r gofal a'r cymorth neilltuol a ddarperir iddynt. Mae'r gwasanaeth yn ystyried risgiau ac anghenion arbenigol fel rhan o'r broses o gynllunio gofal. Gwnaethom ddarllen asesiadau a chynlluniau trosglwyddo helaeth er mwyn sicrhau bod y cartref yn addas i ddiwallu anghenion y bobl. Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl. Os na all y bobl gadw eu hunain yn ddiogel, dilynir y gweithdrefnau angenrheidiol. Mae trefniadau priodol ar waith gyda'r awdurdod lleol i sicrhau y gwneir trefniadau er lles pennaf y bobl, pan fo angen. Mae'r adborth gan deuluoedd yn rhagorol, a dywedodd un teulu wrthym "*They went above and beyond"* wrth ddisgrifio'r cymorth a ddarparwyd i aelod o'r teulu yn ddiweddar yn ystod cyfnod anodd. Dywedodd teuluoedd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y cymorth a ddarperir i'r bobl a bod ganddynt hyder ynddo. Gwelsom gymorth hynod effeithiol yn cael ei ddarparu i'r bobl mewn modd amserol drwy gydol y dydd.

Mae'r gweithwyr cymorth yn siarad mewn ffordd gynnes a brwdfrydig am gyflawniadau'r bobl. Gwnaethom ddarllen y cynlluniau gweithredu sydd ar waith i alluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant y cytunir arnynt. Mae'r gweithwyr cymorth yn cofnodi tystiolaeth o'r ffordd y caiff y bobl eu cefnogi i gyflawni pob nod dyddiol ac mae cyflawniadau yn cael eu dathlu. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys hanesion cymdeithasol cyfoethog y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau a gwella a chynnal ansawdd bywyd y bobl. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael arweiniad effeithiol ar sut i ddiwallu anghenion pob dydd y bobl. Caiff y gwasanaeth ei gefnogi'n fedrus gan dîm cymorth ehangach i gefnogi llesiant y bobl drwy weithredu'r model cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol. Mae cynlluniau cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol clir ar waith ar gyfer y bobl sy'n cyd-fynd â'u cynlluniau personol er mwyn galluogi'r gweithwyr cymorth i ddiwallu anghenion y bobl yn rhagweithiol a chynnal diogelwch a llesiant y bobl pan fydd gwahanol anghenion yn codi. Mae tystiolaeth gref i ddangos bod risgiau cadarnhaol yn cael eu cymryd a'u rheoli.

Mae polisi a gweithdrefnau ar waith yn y gwasanaeth i gefnogi'r broses o ymdrin â meddyginiaeth yn ddiogel yn unol â'r canllawiau arfer gorau cyfredol. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n dda yn y gwasanaeth. Mae hyrwyddwr meddyginiaeth dynodedig yn y gwasanaeth sy'n sicrhau bod systemau clir ar waith ar gyfer rhagnodi, cofnodi ac archwilio meddyginiaeth. Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau manwl a rheolaidd o'r broses feddyginiaeth er mwyn nodi unrhyw batrymau a thueddiadau. Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn effeithiol. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r gweithwyr cymorth er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn unol â pholisi atal a rheoli heintiau'r gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref mawr sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r cartref wedi'i addurno'n blaen i gefnogi'r bobl gyda'u hanghenion synhwyraidd. Mae'r bobl yn cael budd o ddigon o ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored lle gallant dreulio amser a gallant symud yn rhydd o amgylch yr amgylchedd. Mae digon o le yn ystafelloedd gwely'r bobl, ac mae rhywfaint o addurniadau ac eitemau personol ynddynt. Mae hyn y diwallu anghenion amgylcheddol y bobl sy'n byw yn y cartref, fel y'u nodir yn eu cynlluniau cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol. Er bod y décor yn blaen, mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu personoli â lliw a rhai eitemau sydd o ddiddordeb i'r bobl. Mae'r rheolwr wrthi'n ymchwilio i gyfarpar sydd wedi'i addasu ac ystyriaethau amgylcheddol ar hyn o bryd er mwyn gwella llesiant y bobl ymhellach yn ogystal â'u profiad yn y cartref. Edrychwn ymlaen at weld unrhyw newidiadau yn ein harolygiad nesaf.

Mae lolfa/ystafell fwyta fawr yn y prif gartref, gyda digon o seddi i'r bobl a'r gweithwyr cymorth eistedd a mwynhau prydau a gweithgareddau gyda'i gilydd. Mae darparwr y gwasanaeth wedi ystyried anghenion amgylcheddol y bobl sy'n byw yn y cartref ac wedi sicrhau bod y dodrefn yn gadarn. Mae cegin ar wahân gydag adnoddau gweledol i helpu'r bobl i wneud dewisiadau o ran prydau, diodydd a byrbrydau yn rheolaidd. Gall y bobl fynd i'r gegin a chael gafael ar eu heitemau pan fyddant yn dewis. Mae bwydlen weledol fawr wedi'i harddangos ar gyfer yr wythnos er mwyn sicrhau y gall y bobl weld eu prydau ac mae'r bobl yn helpu'r staff i gynllunio'r fwydlen hon. Mae anecs yn rhan o'r eiddo sy'n cynnwys lolfa fach, cegin ar wahân ac ardal eistedd. Mae digon o ystafelloedd ymolchi yn yr adeilad i ddiwallu anghenion y bobl heb oedi.

Mae gardd haenog yn rhan o'r eiddo sy'n cynnwys digon o seddi a byrddau er mwyn bwyta yn yr awyr agored a chynnal gweithgareddau. Mae'r ardd yn ddymunol ac yn cynnig amgylcheddau gwahanol i'r bobl gael profiad ohonynt a'u mwynhau yn eu hamser eu hunain. Caiff diogelwch y bobl ei gynnal yn yr ardd drwy ddefnyddio system teledu cylch cyfyng y cartref er mwyn rhoi cyfle i'r bobl gael amser iddynt eu hunain wrth i'r staff eu monitro o bell pe dymunant. Gwnaethom ddarllen asesiadau risg effeithiol er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei reoli'n ddiogel.

Mae rhywfaint o ôl traul ar yr amgylchedd, ond mae cynllun clir ar waith ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd a chaiff camau gweithredu eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ganfyddiadau. Mae'r rheolwr wedi rhoi systemau da ar waith i reoli'r amgylchedd. Gwelsom enghreifftiau cyson i ddangos bod y rheolwr a'r tîm ehangach yn goruchwylio ac yn monitro'r cartref. Mae'r cartref yn cydymffurfio â phob ardystiad diogelwch, a chaiff diogelwch y cartref ei archwilio a'i arolygu'n barhaus.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cyflawni mwy o ganlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth o ansawdd uchel sydd ar waith yn y gwasanaeth. Mae trefniadau llywodraethu hynod effeithiol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y rheolwr a'r tîm rheoli ehangach yn rhedeg y gwasanaeth yn ddidrafferth. Mae'r prosesau arweinyddiaeth yn canolbwyntio'n gyson ar lesiant y bobl, eu canlyniadau a'u cyflawniadau drwy gydol y prosesau monitro ansawdd. Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno systemau ar-lein er mwyn helpu i archwilio prosesau a gweithdrefnau'r cartref o bell. Mae hyn wedi sicrhau bod y rheolwr yn cael cymorth effeithiol ac amserol gan y tîm cymorth, yn ogystal â'r cyfarwyddwr rhanbarthol a'r Unigolyn Cyfrifol. Caiff yr Unigolyn Cyfrifol ei gefnogi i gyflawni ei ddyletswyddau gan y tîm ehangach er mwyn sicrhau bod y prosesau monitro ansawdd yn drylwyr. Mae tystiolaeth gyson bod camau gweithredu yn cael eu cymryd mewn modd amserol i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd a nodir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwrdd â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn ceisio adborth gan y gweithwyr cymorth, y bobl a'u teuluoedd. Mae ansawdd bywyd y bobl wrth wraidd y prosesau arweinyddiaeth a rheolaeth yn y cartref.

Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn fforymau ehangach yn y sefydliad a chânt eu cefnogi i ddweud eu dweud ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Er enghraifft, mae'r bobl yn cymryd rhan yn y broses recriwtio er mwyn sicrhau bod y gweithwyr cymorth a'r rheolwyr yn addas i weithio yn eu cartref. Mae'r cartref yn dilyn arferion recriwtio diogel. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, yn ogystal â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaethom edrych ar y ffeiliau recriwtio sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd gan y rheolwr er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Roedd y ffeiliau a welsom yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Mae'r rheolwr yn frwdfrydig dros greu a chynnal diwylliant a safonau cadarnhaol yn y cartref ac mae'n annog y gweithwyr cymorth i fynd y tu hwnt i'r disgwyliadau yn eu rôl. Dywedodd y gweithwyr cymorth wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac roeddent yn canmol dull gweithredu'r rheolwr. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael budd o sesiaynu goruchwylio a chymorth cyson a gaiff eu cynnal i safon uchel iawn, ac sy'n canolbwyntio ar lesiant y gweithwyr cymorth a'r bobl. Mae digon o staff ar ddyletswydd i gefnogi'r bobl yn effeithiol. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael hyfforddiant helaeth er mwyn ymgymryd â'u rôl. Dywedodd y gweithwyr cymorth wrthym eu bod yn cael llawer o gyfleoedd i ennill profiad ac i ddatblygu o fewn y sefydliad ac roeddent yn siarad yn frwd am y cyfleoedd y maent yn eu cael i ddatblygu a chwblhau cymwysterau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 57 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod yr holl risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu hasesu a’u lleihau cyn belled ag y bo’n rhesymol ymarferol. | Cyflawnwyd |
| 35 | Mae gan y gwasanaeth broses recriwtio ond mae bylchau yn y broses hon. Nid yw’r gwasanaeth wedi sicrhau bod y bobl wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol, yn ôl y digwydd, mewn cysylltiad â phob un o’r materion a bennir yn Rhan 1 i Atodlen 1 ac nad yw'r wybodaeth hon na'r ddogfennaeth hon ar gael yn y gwasanaeth i’r rheoleiddiwr gwasanaethau edrych arni. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/06/2024